CYNGOR BRO LLANLLWNI

Adroddiad cyfarfod 11 Medi 2023

Cynhaliwyd y Cyfarfod yn Ysgol yr Eglwys, Llanllwni. Roedd y Clerc wedi rhoi copi o'r Agenda yn y Swyddfa Bost cyn y cyfarfod.
Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod. Diolchwyd i'r ysgol am y gwahoddiad i gynnal y cyfarfod ar y safle. Dymunwyd yn dda i Eric davies ar ddathlu ei benblwydd yn 80 oed ac i'r Cyng Hefin Jones ar ei briodas â Carwen Richards ym mis Awst. Estynnwyd llongyfarchiadau i aelodau o'r gymuned a fu'n llwyddianus mewn sioeau ac yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

Y CAE CHWARAE

Cadarnhawyd bod y maes chwarae a'r adnoddau wedi'u harchwilio'n fanwl. Nid oedd damweiniau i'w cofnodi. Ni bu datblygiadau i'w hadrodd ers y cyfarfod diwethaf.

GWEFAN LLANLLWNI

Roedd Adroddiad o gyfarfod mis Medi 2023 wedi ei osod ar y wefan.

CLONC CLECS

Roedd Adroddiad o gyfarfod mis Medi wedi ei anfon.

DIFFIBRILYDDION

Roedd amryw anawsterau wedi codi yn ystod yr wythnosau diwethaf ond roedd gobaith y byddent yn cael eu datrys yn fuan. Nodwyd bod Fferm Wynt Brechfa yn fodlon ariannu archwilio'r diffibrilyddion bob 6 mis.

HEWL FFYNNON-DDRAIN – GWARCWM

Mae angen ailedrych ar y safle gan bod y tarmac wedi torri a thyllau sylweddol yn yr hewl unwaith eto.

MANTOLEN

Cyflwynodd y Clerc fantolen am y cyfnod 11/07/2023 – 11/09/2023.

ARCHWILIO CYMRU

Bydd cyfrifon 01 Ebrill 2022 tan 31 Mawrth 2023 yn cael eu danfon i Archwilio Cymru yn y dyddiau nesaf.

SBWRIEL GER CILFAN BRYNLLYWELYN:

Cafwyd gwybodaeth bod tipio sbwriel wedi digwydd yn anghyfreithlon yno ond bod y mater wedi ei ddatrys bellach.

GOHEBIAETH A GWYBODAETH

Roedd amryw daflenni wedi'u derbyn gan Un Llais Cymru, Mynyddoedd Cambrian a Chyngor Sir Caerfyrddin.

PENDERFYNWYD CEFNOGI

Cerebal Palsey; Kids Cancer Charity.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a'u brwdfrydedd dros y plwyf.Bydd y Cyfarfod Blynyddol yn y Neuadd Gymunedol Llanllwni nos Lun 13 Tachwedd 2023 am 8yh.